



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742  
Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

## COFNODION Y CYNGOR YSGOL

**Mehefin 14eg, 2013**

### Presennol

*Robert Gorman, Sara Fflur Griffiths,  
Gwenllian Thomas, Rhianedd Owen,  
Sara ap Robert John, Erin Davies,  
Elen Llywelyn Evans, Dylan James-Williams,  
Mrs Williams, Mrs Llwyd*

### Absennol

*Llŷr Eirug, Dylan Skym*

### Agenda

#### 1. Croesawu pawb i'r cyfarfod

Croesawodd Robert Gorman, Cadeirydd y Cyngor Ysgol, bawb i'r cyfarfod.

**2. Addasu fformat cofnodion y Cyngor Ysgol** – gan ein bod yn sylwi nad yw popeth rydym yn penderfynu gweithredu arno yn y cyfarfodydd yn cael ei wireddu bob amser, penderfynwyd newid fformat y cofnodion fel eu bod yn nodi pwy ddylai fod yn gyfrifol am weithredu'r gwahanol awgrymiadau. O hyn ymlaen, byddwn yn nodi enwau'r aelodau sy'n gyfrifol am weithredu awgrymiadau yn y cofnodion, a bydd disgwyl i'r aelodau hynny adrodd yn ôl ar unrhyw ddatblygiadau yn y cyfarfod nesaf. **(Addasu'r cofnodion - Sara Fflur a Gwenllian)**

#### 2. Trafod materion sy'n codi yn y dosbarthiadau:

Gofynnodd Robert os oedd unrhyw faterion wedi codi ymhlith ein cyd-ddisgyblion yn y dosbarthiadau ers y cyfarfod diwethaf.

Trafodwyd y canlynol:

- **Pryd bwyd Blwyddyn 6** – dyweddodd Robert ei fod wedi cael cais gan gogyddion yr ysgol ddechrau'r wythnos i drafod gyda gweddill disgyblion Blwyddyn 6 pa bryd o fwyd (cwrs cyntaf a phwddin) yr hoffon nhw ei gael fel un o'u prydau olaf yn yr ysgol. Esboniodd Robert ei fod wedi galw Blwyddyn 6 i gyd ynghyd ddydd Mawrth er mwyn cynnal pleidlais. Lluniwyd rhestr fer o opsiynau, ac yna dewiswyd y cwrs cyntaf a'r pwddin mwyaf poblogaidd. Y dewis terfynol oedd brecwast llawn fel cwrs cyntaf (gyda bacwn yn ychwanegol, os yn bosibl!) a byn eising ac ysgythaeth i bwddin. Bydd dewis amgen i lysieuwyr yn lle cig gyda'r brecwast llawn, a bydd cyfle i'r plant sy'n cael bocs bwyd fel arfer fwyta cinio ysgol ar ddiwrnod y cinio arbennig (mae'r dyddiad i'w gadarnhau, ond bydd yn digwydd yn ystod wythnos olaf ond un y tymor, siŵr o fod). Yn dilyn cais Gwenllian am barti gadael i Flwyddyn yn y cyfarfod yr wythnos diwethaf, cytunwyd y gallai'r cinio arbennig gyfri fel rhyw fath o barti gadael (bydd gwasanaeth arbennig i Fl.6 ar eu bore olaf yn yr ysgol hefyd, yn ogystal â thaith feics i'r prom yn ystod yr wythnos olaf).



## Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

- **Diwrnod hwyl cyn diwedd y tymor** - Mae nifer o ddisgyblion ein dosbarthiadau wedi gofyn os oes modd cael rhyw fath o ddiwrnod hwyl cyn diwedd y tymor (yn debyg i'r Diwrnod Pinc i gofio am Angharad Mair y llynedd.) Ar ôl trafod, penderfynwyd y byddai'n syniad da cynnal diwrnod gêmiau potes i'r ysgol gyfan (gydag aelodau o bob blwydydn ym mhob tîm) yn ystod yr wythnos olaf ond un cyn y gwyliau. Bydd pawb yn trafod mwy o syniadau posibl gyda'u dosbarthiadau, a bydd Robert a Gwenllian yn trafod y trefniadau gyda Mr Williams yr wythnos nesaf. **(Robert a Gwenllian, pawb yn eu dosbarthiadau)**

- **Traffig ar y ffordd heibio'r Ysgol Gymraeg hyd at Ysgol Plascrug** – dywedodd Sara Fflur ei bod hi wedi sylwi, wrth gerdded i'r ysgol dros bont Camau Bach a heibio Ysgol Plascrug tuag at yr Ysgol Gymraeg, fod traffig yn gyrru'n gyflym iawn ar hyd y ffordd heibio'r ddwy ysgol yn y bore. Does dim cyfyngder cyflymder yno ar hyn o bryd, a dim 'speed bumps' ar ôl mynd heibio'r Ysgol Gymraeg chwaith. Ar ôl trafod, penderfynwyd y byddai Robert a Sara Fflur yn mynd i ati i ddrafftio llythyr i'w anfon at ein cynghorydd tref/sir lleol, yn mynegi ein pryder ynglŷn â hyn. **(Robert a Sara Fflur)**

**2. Blwyddyn 5 a 6 yn arsylwi gwersi** - yn dilyn cais gan Mr Williams, bu aelodau Bl.5 a 6 o'r Cyngor Ysgol wrthi'n brysur yn arsylwi ar wersi mewn gwahanol ddsbarthiadau, gan ganolbwyntio ar gyflawniad disgyblion o ran tri arwyddair yr ysgol – 'Cymreictod', 'Gwneud ein Gorau Glas' a 'Pharchu ein Gilydd'. Cafodd yr aelodau gyfle i adrodd yn ôl ar yr hyn a welwyd yn y dosbarthiadau, ac roedd yr adborth yn positif iawn (gweler y taflenni arsylwi yn ffeil y Cyngor Ysgol).

**3. Cyflwyniad gan y Cyngor Ysgol i'r Llywodraethwyr** – yn dilyn cais gan Mr Williams bydd angen i'r Cyngor Ysgol baratoi cyflwyniad i'w wneud o flaen y Llywodraethwyr yn eu cyfarfod olaf cyn gwyliau'r haf. Bydd angen i'r cyflwyniad sôn yn fras am yr hyn mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn gwneud yn ystod y flwyddyn, a rôl pob un ohonom. Penderfynwyd taw aelodau Bl.6 o'r Cyngor Ysgol fydd yn paratoi a gwneud y cyflwyniad, ar ffurf PŵerBwynt. **(Robert, Sara Fflur, Gwenllian a Dylan Skym)**

#### **4. Bocs Syniadau**

Edrychodd Robert yn y Bocs Syniadau – un awgrym oedd cael diwrnod hwyl a diwrnod dillad ein hunain cyn diwedd y tymor.

Diolchodd Robert i bawb am ddod cyn cloi'r cyfarfod.

#### **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd Gorffennaf 5ed, 2013

***Cofnodion gan Sara a Gwenllian (Ysgrifenyddes ac Is-Gadeiryddes).***